UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

# Datganiad i Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru:
# Cylch Gwaith Blwyddyn 6

Mawrth 2025

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.ucac.cymru

## Datganiad UCAC i Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru: Cylch Gwaith Blwyddyn 6

Mae UCAC yn cynrychioli athrawon, arweinwyr a darlithwyr ym mhob cwr o Gymru. Rydym yn croesawu'r cyfle i gyflwyno'r datganiad hon i Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru.

## 1. Sylwadau cychwynnol a gofynion y Llywodraeth

1.1. Nodwn gyda siom na fu i'r Llywodraeth weithredu'n amserol nac yn briodol i adroddiad mwyaf diweddar CACAC.

1.2. Yn wir, barn UCAC yw y bu i'r Llywodraeth amharchu holl randdeiliaid y broses wrth beidio â dilyn y prosesau cytunedig, gan anwybyddu eich gwaith caled fel Corff a chwestiynu natur datganoli'r cyfrifoldeb am gyflog ac amodau athrawon i Gymru.

1.3. Gan na fu i'r Llywodraeth ddod i benderfyniad ar gyflog yn seiliedig ar eich adroddiad, cyn dilyn y prosesau arferol o ran 'non detriment', anodd yw gweld beth yw diben unrhyw brosesau yn y dyfodol, gan gynnwys yr un presennol.

1.4. Carwn nodi nad yw ein barn yn adlewyrchiad o gwbl ar ein barn ar eich gwaith chi fel corff, yn wir, i'r gwrthwyneb, rydym yn awyddus i nodi ein bod yn fodlon iawn gyda'ch ymwneud teg, trylwyr a phroffesiynol a'r prosesau arferol.Hynny er gwaetha'r cyfyngiadau amlwg sydd yn cael eu gosod arnoch gan y Llywodraeth.

1.5. O ran cyfyngiadau, mae'n allweddol ein bod yn nodi eto eleni ein gwrthwynebiad i'r ffaith bod disgwyl i chi ystyried 'cyd-destun ariannol y sector cyhoeddus' a 'nodi cost unrhyw newidadau arfaethedig i gyflog ac amodau'. Nid yw cyfyngiadau o'r fath yn sicrhau annibyniaeth lawn i unrhyw gorff, a nodwn y dylai'r Llywodraeth gyflwyno gwybodaeth o'r fath fel tystiolaeth ar eu rhan.

1.6. Rydym yn gryf o'r farn y dylai gweinidogion y Llywodraeth wneud unrhyw benderfyniad ar afforddadwyedd wedi derbyn y wybodaeth.

1.7. Diddorol yw nodi sylwadau adroddiad yr IFER ar hyn. https://www.ier.org.uk/wp-content/uploads/IER_A4_PRB_Rep.pdf

1.8. Fodd bynnag, rydym yn nodi disgwyliadau cychwynnol Y Cylch Gorchwyl eleni ac yn rhoi ystyriaeth cryno isod i:

- Pa addasiadau y dylid eu gwneud i ystodau cyflog a lwfansau athrawon dosbarth, athrawon sydd heb gymhwyso ac arweinwyr ysgolion, er mwyn sicrhau bod y proffesiwn addysgu yng Nghymru yn cael ei hyrwyddo a'i wobrwyo i annog recriwtio a chadw ymarferwyr o ansawdd uchel.

## 2. Pa addasiadau y dylid eu gwneud i ystodau cyflog a lwfansau athrawon dosbarth, athrawon sydd heb gymhwyso ac arweinwyr ysgolion, er mwyn sicrhau bod y proffesiwn addysgu yng Nghymru yn cael ei hyrwyddo a'i wobrwyo i annog recriwtio a chadw ymarferwyr o ansawdd uchel

2.1. Addasiadau cyflog

2.1.1. Mae UCAC yn nodi'r cynnydd cyflog a gafwyd yn y pen draw yn Nhachwedd 2024.

2.1.2. Nodwn eto ein siom y bu rhaid i ni ddisgwyl i weld beth oedd y cynnydd yn Lloegr cyn fod unrhyw benderfyniad yn digwydd yng Nghymru.

2.1.3. Fodd bynnag, er gwaetha'r cynnydd a welwyd y llynedd, fel sydd wedi ei drafod yn flynyddol, mae cyflogau athrawon yn parhau yn sylweddol is mewn termau real nag oeddynt un flynedd ar bymtheg mlynedd yn ôl.

2.1.4. Er mwyn cadw ein sylwadau'n gryno nid yw'n fwriad gennym yma i ail adrodd unrhyw ddadleuon am yr hyn y dylai athrawon fod yn ei dderbyn fel cyflog yn seiliedig ar chwyddiant, digon i ddweud fod y dadleuon yn aros.

2.1.5. Er mai llwyth gwaith sydd yn gyson yn cael ei nodi fel y maen tramgwydd mwyaf o ran recriwtio a chadw, does dim dwywaith bod y sefyllfa gyflog yn cael effaith mawr ar hyrwyddo'r proffesiwn ac ar gadw ymarferwyr (yn enwedig yn eu blynyddoedd cynnar yn eu swydd).

2.1.6. Fodd bynnag, unwaith eto, rydym yn cydnabod y bydd yn cymryd blynyddoedd i unioni'r cam o ran codiadau cyflog is na chwyddiant.

2.1.7. Mae UCAC felly yn galw unwaith eto eleni i athrawon dderbyn codiad cyflog sydd yn sylweddol uwch na chwyddiant yn hytrach na chodiad cyflog fyddai wir yn gwobrwyo'r proffesiwn yn unol â'r bwriad o recriwtio a chadw ymarferwyr o ansawdd uchel.

2.1.8. Nodwn fod y CPI yn ôl yr ONS yn 3% yn Ionawr 2025. Hyn yn is na 3.6% y RPI, wrth gwrs.

2.1.9. Byddai methiant i beidio â chodi cyflog athrawon uwchlaw'r 3% yn siŵr o gael effaith negyddol pellach ar recriwtio a chadw.

2.1.10. Barn UCAC yw y dylai unrhyw godiad cyflog gael ei adlewyrchu yn yr holl ystodau cyflog a'r lwfansau.

2.1.11. Fodd bynnag, ni ddylid ystyried fod codiad cyflog am fod yn ddigonol i sicrhau lefel uchel o recriwtio a chadw – rhaid wrth fuddsoddiad sylweddol i leihau llwyth gwaith. Derbyniwn fod hyn yn alwad y tu hwnt i'r cylch gwaith presennol, a'ch bod eisoes wedi adrodd ar sawl elefen cysylltiedig.